# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Twf Da – diweddariad ar gynnydd

### Cefndir

1. Yng nghyfarfod diwethaf Cyngor Adnewyddu'r Economi, cyflwynwyd papur ar ran y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan Peter Davies, Cadeirydd Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd

2. Roedd y papur yn archwilio Twf Da a'i botensial o ran datblygiad buddiol yr economi yng Nghymru. Cafodd ei gymeradwyo'n llawn gan y Cyngor a chafodd ei ddirprwyo i Swyddogion yn y cyfarfod i symud y camau nesaf yn eu blaen.

### Diben

3. Diben y papur hwn yw cynnig diweddariad am gynnydd hyd yn hyn.

### Camau Gweithredu Hyd yn Hyn

4. Mae Gweithgor Cyngor Adnewyddu'r Economi wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Yng nghyfarfod diwethaf y Gweithgor, trafodwyd y camau nesaf a chytunwyd y byddai swyddogion yn cwrdd â Peter Davies i bennu cwmpas y gwaith.

5. Cafwyd trafodaeth gyda Peter Davies. Cytunwyd mai'r cam nesaf oedd gwneud astudiaeth sylfaenol yn unol ag argymhellion Peter Davies. Wrth wneud hynny, gofynnodd y Gweinidog am gael cynnwys yr Athro Garel Rhys i gynorthwyo i lywio'r gwaith hwn, o gofio ei brofiad yn cadeirio'r Panel Cynghorol ar Ymchwil Economaidd.

6. Bellach, cafwyd cyfarfod gyda Peter Davies a'r Athro Garel Rhys i bennu cwmpas y gwaith hwn. Maent wedi cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gychwyn ar y gwaith yn fuan i sefydlu llinell sylfaen o ran polisi, ysgogiadau a rheolaeth yng Nghymru a nodi ble mae gan Gymru fantais gymharol i greu budd economaidd tymor hir.

7. Mae'r cynnig bellach yn cael ei ddatblygu'n fanyleb er mwyn caniatáu i'r gwaith gychwyn.

8. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf Gweithgor y Cyngor ym mis Hydref.